**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10am.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cyng. M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| Y Cyng. A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C Everett (Clerc a Swyddog Monitro); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead ac R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Rheolwr Hyfforddi a Datblygu); G Brandrick (Rheolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. R Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. T A Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cyng. P W Owen | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Ar ddechrau'r cyfarfod, darllenodd y Cadeirydd lythyr gan y Cyng. L W Davies, Cyngor Sir Ynys Môn a oedd yn methu dod i'r cyfarfod. Roedd y neges yn cyfleu gwerthfawrogiad a diolchgarwch y Cyng. Davies, Cyngor Tref Biwmares a Chyngor Cymuned Llangoed am y gwaith a wnaed gan y diffoddwyr tân i bwmpio dŵr o dai a'r castell ym Miwmares yn ystod y llifogydd mawr ym mis Rhagfyr. Mynegodd y Cynghorydd ei ddiolch i bawb a fu'n gweithio drwy gydol y nos yn diogelu cartrefi a'r gymuned.

Roedd yr aelodau'n ategu teimladau'r Cyng. Davies, a chytunwyd i roi'r neges ar fewnrwyd y Gwasanaeth er mwyn i'r holl staff ei weld.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Dim

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 HYDREF 2015

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 9.3 – Un o argymhellion yr adroddiad gwella blynyddol oedd cael cynllun ariannol tymor canolig, a chytunwyd ar hyn yn y cyfarfod arbennig.

4.2 Cyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub 2015-16 - Prosiectau Ategol – ar ôl iddi fod yn ei lle am 18 mis a mwy darperir adroddiad i'r Aelodau ar ganlyniad y newidiadau a roddwyd ar waith ar 1 Ebrill 2015.

5 MONITRO PERFFORMIAD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a pherfformiad monitro o gymharu â'r amcanion gwella.

5.2 Yn dilyn cais gan y Cyng. McGuill yn y cyfarfod diwethaf, cyflwynwyd dadansoddiad o'r hyn a achosodd/beth oedd tarddiadau tanau damweiniol mewn cartrefi; er bod 'peiriant coginio' yn cael ei gofnodi'n darddiad i 46% o'r holl danau damweiniau mewn cartrefi, roedd yn bwysig nodi mai mewn achosion prin yr oedd nam ar y peiriant ac mai'r person a oedd yn defnyddio'r peiriant oedd wedi achosi'r tân yn y mwyafrif helaeth o ddigwyddiadau.

5.3 Aeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân â'r Aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2015, gan dynnu sylw at y canlynol:

5.4 Roedd yr wybodaeth am berfformiad yn ymwneud ag amcan gwella 1: atal marwolaethau ac anafiadau o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi, yn dangos gostyngiad yn y perfformiad yn erbyn yr holl ddangosyddion perfformiad dan yr amcan hwn o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15, sef blwyddyn eithriadol o 'dda' o ran perfformiad. Ond gofynnwyd i'r Aelodau nodi y bu cynnydd yn y perfformiad ar sail y cyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf; er enghraifft, o ran tanau damweiniol mewn cartrefi, roedd dau yn fwy o ddigwyddiadau wedi cael eu cofnodi yn 2015/16 nag yn yr un cyfnod yn 2014/15, ond o gymharu â'r cyfartaledd yn y tair blynedd ddiwethaf bu gostyngiad o 10.5%.

5.5 Ers 2010/11, bu gostyngiad i'w groesawu, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yng nghanran y cartrefi lle bu tân ond a oedd heb larwm mwg, ond bu mymryn o gynnydd, sef o 40 i 48 o ran y digwyddiadau yn 2015/16 o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15. Nodwyd bod 16,868 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref wedi cael eu cynnal rhwng Ebrill a Rhagfyr 2015, ac felly mae hyn yn debygol o gyrraedd y targed blynyddol o 20,000 a osodwyd gan yr Awdurdod; holodd yr Aelodau am y ffaith fod atgyfeiriadau gan sefydliadau

sy'n bartneriaid inni wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cadarnhaodd y DBST fod y swyddogion wrthi'n adolygu ac adnewyddu memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda'r sefydliadau partneriaethol; rhagwelir y bydd hyn yn ffordd o'u hatgoffa i raeadru arferion da i lawr i'r holl staff ac ymarferwyr, ac yn ffordd o'u hatgoffa o bwysigrwydd atgyfeirio archwiliadau diogelwch tân yn y cartref.

5.6 O ran gwybodaeth am berfformiad yn ymwneud â'r holl weithgarwch, bu gostyngiad o 21.9% neu 1,057 yn llai o ddigwyddiadau o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15. Ond bu cynnydd yn y galwadau am wasanaethau arbennig oherwydd y cynnydd mewn llifogydd, ac roedd hyn yn gwrthbwyso'r tueddiad am i lawr yn yr adegau pryd aethpwyd at wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y cynnydd sylweddol yn nifer yr adegau pryd yr aethpwyd at lifogydd ond heb ragor o arian yn dod gan Lywodraeth Cymru; nodwyd bod presenoldeb y GTA mewn llifogydd yn parhau i fod yn ddyletswydd anstatudol.

5.7 Da oedd nodi y bu gostyngiad sylweddol o 78% yn nifer y galwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig mewn eiddo annomestig ers i'r Awdurdod weithredu newid yn y polisi o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

5.8 Mae'r gostyngiad yn nifer y tanau yn y tri chwarter cyntaf y 2015/16 o gymharu â 2014/15 yn cael ei adlewyrchu hefyd yn y tanau damweiniol a bwriadol, gyda gostyngiad o 6.4% a 1.8% yn eu trefn. Gostyngiad hefyd oedd yr 14 yn llai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r un cyfnod yn 2014/15.

5.9 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad monitro perfformiad a'r wybodaeth atodol a gyflwynwyd yn y cyfarfod.**

6 GWEITHGARWCH Y GWASANAETH YN YSTOD Y LLIFOGYDD DIWEDDAR

6.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y gweithgareddau a gyflawnwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod y llifogydd ledled y rhanbarth yn Rhagfyr 2015. Rhoddodd y PSTC Fairhead grynodeb o'r llifogydd y buwyd yn ymdrin â nhw ar y penwythnos cyntaf yn Rhagfyr 2015 ac ar benwythnos y Nadolig.

6.2 Roedd GTAGC wedi gweithio gyda GTA Swydd Gaer i ymdrin â digwyddiadau yn ardal Holt. Cafodd pwmp cyfaint mawr GTAGC ei ddefnyddio am 19 awr ym Miwmares, gan atal y ffos o gwmpas y castell rhag gorlifo. Nododd yr Aelodau fod y pwmp cyfaint mawr yn gallu pwmpio 8,000-9,000 litr o ddŵr y funud, ac mae hynny'n cyfateb i gael pump neu chwech o beiriannau tân yn bresennol; felly, yn ogystal â chael llawer mwy o allu mae hefyd yn gofyn am lawer llai o staff i weithredu'r pwmp. Ar Ddydd San Steffan, bu dau ddigwyddiad mwy o faint lle'r oedd pympiau cyfaint mawr wedi cael eu defnyddio; roedd pwmp cyfaint mawr GTAGC wedi cael ei ddefnyddio yn Llanddulas ac roedd pwmp cyfaint mawr o Ganolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael ei ddefnyddio ym Miwmares. Rhywbeth arall a gymhlethodd pethau ar Ddydd San Steffan oedd y ffaith na ellid mynd ar hyd yr A55 ger Bangor na'r A5 yng Nghapel Curig.

6.3 Llongyfarchwyd yr holl staff dan sylw gan yr Aelodau, a theimlai'r Cyng. McGuill eu bod wedi mynd ymhell y tu hwnt i alwad dyletswydd. O ran y ffaith mai dim ond un pwmp cyfaint mawr sydd gan GTAGC, awgrymodd y gallai fod angen i'r Awdurdod brynu ail bwmp gan ei bod yn debygol y caiff y math hwn o beiriant ei ddefnyddio'n llawer amlach yn y dyfodol.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 AMCANION GWELLA 2016-17

7.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn:

(i) rhoi crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei Amcanion Gwella drafft ar gyfer 2016-17; a

(ii) cynnig sail i Gynllun Gwella drafft terfynol ar gyfer 2016-17 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod nesaf ar 21 Mawrth 2016.

7.2 Da oedd nodi bod bron i 180 o ymatebion wedi dod i law, a bod y rhan fwyaf ohonynt yn cytuno â'r amcanion drafft a amlinellwyd gan yr Awdurdod.

7.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo bod drafft terfynol o Gynllun Gwella 2016-17 yn cael ei lunio ar sail y pedair amcan gwella a amlinellir isod i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym Mawrth 2016 a'u cyhoeddi cyn 01 Ebrill 2016:**

**Amcan 1** - ""Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi".

**Amcan 2** - "Gan gydnabod y gostyngiad a ddisgwylir yng nghyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog."

**Amcan 3** - "Bydd yr Awdurdod yn ail-falansio ei adnoddau i gyfateb i risg. Bydd yn gweithredu model newydd o ddarparu adnoddau sy'n sicrhau bod 20 o leiaf o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar adegau o risg cymharol uwch."

**Amcan 4** - "Bydd yr Awdurdod yn chwilio am gyfleoedd i amrywio rôl diffoddwyr tân ac i gynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru."

8 AELODAETH GWEITHGOR Y CYNLLUN GWELLA

8.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar aelodaeth Gweithgor y Cynllun Gwella a nodi dyddiadau cyfarfodydd yn 2016.

8.2 Bydd y gweithgor yn cyfarfod yn rheolaidd dros y misoedd nesaf er mwyn gwneud rhagor o waith datblygu ar yr amcanion a osodwyd, gyda'r bwriad o gyhoeddi Cynllun Gwella drafft ar gyfer 2017-18 i ddiben ymgynghoriad cyhoeddus tua diwedd 2016 a'i gyhoeddi ym Mawrth 2017.

8.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cytuno bod holl aelodau'r Panel Gweithredol yn dod yn aelodau Gweithgor y Cynllun Gwella;**

**(ii) nodi dyddiadau cyfarfod Gweithgor y Cynllun Gwella fel a ganlyn:**

**Dydd Llun 22 Chwefror, 10am;**
**Dydd Llun 14 Mawrth, 10am;**
**Dydd Llun 11 Ebrill, 10am;**
**Dydd Llun 25 Ebrill, 10am.**

9 DIRPRWYO PWERAU I'R PRIF SWYDDOG TÂN

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i ofyn i'r Aelodau gadarnhau dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân.

9.2 Nodwyd bod pwerau swyddogion yn cael eu dirprwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae dirprwyo pwerau'n digwydd pan fo'r Aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun. Mae Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn rhoi'r pŵer i ddirprwyo. Roedd y cynllun dirprwyo presennol wedi cael ei adolygu gan y Clerc a'r PST, a'i ddiweddaru lle'r oedd angen. Awgrymodd y PST y gallai'r aelodau fod eisiau ystyried adolygu'r cynllun dirprwyo unwaith y mae rhagor o wybodaeth wedi cael ei chadarnhau ynglŷn ag ad-drefnu llywodraeth leol ac effaith debygol hynny ar yr ATA.

9.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) argymell y cynllun dirprwyo pwerau i'r Awdurdod llawn ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ym Mawrth 2016;**

**(ii) adolygu'r cynllun dirprwyo pan fo manylion pellach wedi cael eu cadarnhau ynglŷn ag ad-drefnu llywodraeth leol a'r effaith bosibl ar yr ATA.**

10 Y GOFRESTR RISG STRATEGOL

10.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth sydd ar gofrestr risg strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risg Strategol.

10.2 Atgoffwyd yr Aelodau eu bod eisoes wedi mabwysiadu diffiniad o risg strategol ac wedi cymeradwyo trefniadau newydd ar gyfer goruchwylio a rheoli'r risgiau strategol sy'n wynebu'r Awdurdod. Fel rhan o'r trefniadau newydd, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad cryno ar y risgiau strategol ddwywaith y flwyddyn, a bydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gweld manylion llawn y gofrestr yn rheolaidd gyda'r swyddogion.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r risgiau strategol a oedd wedi'u canfod ac sy'n wynebu'r Awdurdod fel y nodir yn yr adroddiad.**

11 ADBORTH Y COMISIYNYDD AR YR ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL AR Y GYMRAEG

11.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r adborth a ddaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2014-15.

11.2 Nodwyd bod adborth cadarnhaol wedi dod i law, ac roedd y Comisiynydd yn croesawu llawer o agweddau ar waith y Gwasanaeth mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau'r Gymraeg ar fin cael eu cyhoeddi, ac mae swyddogion o'r tri ATA yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i baratoi ar gyfer yr adeg pryd y daw'r safonau newydd i rym.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag ymrwymiad y Gwasanaeth i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei hyrwyddo.**